# P-04-547 Gwahardd Deunydd Pacio Polystyren ar gyfer Bwyd a Diod Cyflym

**Geiriad y ddeiseb:**

Mae□r amser wedi dod i roi□r gorau i□r llanast y mae□r miliynau o gartonau polystyren bwyd a diod yn ei wneud o draethau a chefn gwlad Cymru. Mae polystyren (EPS) yn elfen amlwg o sbwriel trefol a morol. Mae□n niweidiol i fywyd gwyllt sy□n ei lyncu ac mae□n costio miliynau i Gynghorau Cymru ei dynnu oddi ar ein strydoedd. Mae polystyren yn cymryd cannoedd o flynyddoedd i ddiraddio. Mae dros 100 o ddinasoedd yn yr Unol Daleithiau (gan gynnwys Efrog Newydd), Canada, yn ogystal ag Ewrop wedi gwahardd deunydd pacio polystyren ar gyfer bwyd o ganlyniad i effeithiau negyddol ar yr amgylchedd. Gobeithiwn y bydd Cymru yn cael y weledigaeth i ymuno â□r rhestr honno. Felly, gan fod cymaint o ddewisiadau amgen i ddeunydd pacio polystyren (EPS) bellach ar gael, sy□n cael llawer llai o effaith ar yr amgylchedd ac iechyd dynol, a hefyd er mwyn arbed miliynau o bunnoedd i drethdalwyr Cymru mewn costau glanhau strydoedd, yr ydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn gofyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno gwaharddiad ar yr holl ddeunydd pacio polystyren ar gyfer bwyd a diod cyflym.

**Prif ddeisebydd:** Friends of Barry Beaches

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:** 29 Ebrill 2014

**Nifer y llofnodion**: 295